**Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2025**

Mae'r datganiad hwn yn unol ag Adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern y DU 2015 ac mae'n nodi'r camau y mae CBAC wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 30 Medi 2025 i atal caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Rydym wedi ymrwymo i weithredu mewn ffordd foesegol, gydag uniondeb, yn ein holl drafodion busnes. Byddwn ni'n gweithredu ac yn gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd yn unrhyw le yn ein busnes nac yn ein cadwyni cyflenwi.

**Ein Sefydliad**

Elusen gofrestredig yw WJEC CBAC Limited a chwmni a gyfyngir drwy warant wedi'i reoli gan Fwrdd Cyfarwyddwyr. Mae ganddo is-gwmni hefyd sef WJEC CBAC (Services) Limited, sy'n cynnig gwasanaethau argraffu a chyhoeddi arbenigol i gefnogi swyddogaethau craidd CBAC.

Mae ein cyfeiriad strategol a'n penderfyniadau allweddol yn cael eu harwain gan ein Tîm Arwain Gweithredol sy'n cael ei gefnogi gan dros 500 o weithwyr ymroddedig, gan gynnwys arbenigwyr pwnc, a gweithwyr proffesiynol addysgu a dysgu profiadol.

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, ac un o brif ddarparwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae CBAC yn darparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad.

**Ein Cadwyni Cyflenwi**

Rydym yn credu mewn gweithio gyda phartneriaid sy'n rhannu ein hymrwymiad i ddileu caethwasiaeth fodern a masnachu pobl o fewn ein cadwyn gyflenwi.

Mae CBAC yn gweithio i gynyddu tryloywder ar draws ein cadwyn gyflenwi a gwella ein gallu i nodi, asesu a lliniaru risgiau. Ni fyddwn yn ymgysylltu, yn cefnogi nac yn gweithio gydag unrhyw fusnes sy'n ymwneud yn ymwybodol â chaethwasiaeth neu fasnachu pobl.

Er bod y mwyafrif o'n cyflenwyr wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig, rydym yn cydnabod bod rhai sectorau ac ardaloedd daearyddol yn cyflwyno risg uwch o gaethwasiaeth fodern a bod cael cadwyni cyflenwi cymhleth yn cynyddu unrhyw risgiau.

Mae cadwyn gyflenwi CBAC yn perthyn i'r prif gategorïau canlynol:

- Offer a gwasanaethau TGCh
- Rheoli Ystadau a Chyfleusterau
- Gwasanaethau proffesiynol
- Deunyddiau asesu
- Logisteg
- Teithio

Bydd ein polisïau yn cyd-fynd â'n gweithdrefnau caffael â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Chyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi gan ganolbwyntio ar ddileu caethwasiaeth fodern.

**Polisïau mewn perthynas â Chaethwasiaeth a Masnachu Pobl**

Mae gan y swyddogaeth Caffael o fewn y Gyfarwyddiaeth Cyllid gyfrifoldeb o ddydd i ddydd am weithio tuag at ddileu caethwasiaeth fodern o'n cadwyni cyflenwi.

Mae'r polisïau canlynol yn nodi ein disgwyliadau ynghylch ymddygiad moesegol, hawliau dynol, a safonau llafur.

- Mae'r **Polisi Chwythu'r Chwiban** yn galluogi staff a chontractwyr/cyflenwyr i roi gwybod i CBAC am arferion cyflogaeth anfoesegol
- Mae'r **Cod Ymddygiad Cyflogai** yn ei gwneud yn glir i staff beth yw'r ymddygiadau priodol a'r uniondeb a ddisgwylir wrth gyflawni eu dyletswyddau **Polisi Recriwtio a Dethol** gan gynnwys gwiriadau Hawl i Weithio
- **Polisi Gweithwyr Asiantaeth**

**Prosesau Diwydrwydd Dyladwy**

Mae dull sy'n seiliedig ar risg o ddiwydrwydd dyladwy wedi'i weithredu, ac mae diwydrwydd dyladwy yn cael ei gynnal ar bob cyflenwr newydd fel rhan o'r broses gaffael a sefydlu cyflenwyr gan gynnwys:

- Defnyddio holiaduron a hunanasesiadau cyflenwyr
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol
- Asesiad risg ariannol a masnachol
- Cymalau contractiol sy'n gofyn am gydymffurfio â deddfwriaeth caethwasiaeth fodern
- Adolygiad cyfnodol o gyflenwyr risg uchel

**Asesu a Rheoli Risg**

Rydym yn asesu risg yn seiliedig ar ffactorau yn ystod y prosesau diwydrwydd dyladwy gan gynnwys:

- Lleoliad daearyddol
- Sector diwydiant
- Natur y nwyddau/gwasanaethau a ddarperir
- Nodweddion y gweithlu (e.e. defnyddio llafur dros dro neu lafur mudol)

Byddwn yn blaenoriaethu meysydd risg uwch fel natur y gwasanaeth, defnyddio isgontractwyr a chyflenwyr y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac yn rhoi mesurau cymesur ar waith i liniaru'r risgiau hynny. Gweithredu ar bryderon a chymryd camau cywirol lle bo angen.

**Dangosyddion Effeithiolrwydd a Pherfformiad**

Bydd cyflenwyr strategol allweddol, sy'n cael eu hystyried yn rhai mewn perygl o ddod i gysylltiad â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn cael eu monitro yn barhaus o ran risgiau ariannol, masnachol a chadwyn gyflenwi. Mae'r DPA Caffael canlynol yn cael eu mesur a'u hadrodd i'r Tîm Arwain Gweithredol:

- Nifer y cyflenwyr a aseswyd o ran risg caethwasiaeth fodern

- Adroddiadau o ddigwyddiadau a chamau cywiro

**Hyfforddi ac Ymwybyddiaeth**

Mae CBAC yn cydnabod bod hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i holl weithwyr CBAC yn bwysig er mwyn lleihau'r risg o gaethwasiaeth fodern yn ein busnes a'n cadwyni cyflenwi.

- Mae'n ofynnol i staff gwblhau hyfforddiant caethwasiaeth fodern blynyddol ar sut i adnabod ac adrodd amheuon o gaethwasiaeth fodern. Er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn ffocws, mae'r hyfforddiant yn orfodol i bob aelod o staff.
- Cwblhau hyfforddiant Caffael a Chyflenwi Moesegol CIPS (Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi) ar gyfer staff caffael strategol.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2025/2026**

Yn y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn:

- Parhau i adolygu a gwella ein proses cyn-gymhwyso a diwydrwydd dyladwy cyflenwyr
- Gwella mapio a gweladedd cadwyni cyflenwi
- Datblygu ac ymgorffori cod ymddygiad cyflenwyr
- Datblygu Strategaeth Gaffael newydd sy’n Gyfrifol yn Gymdeithasol
- Ehangu ymgysylltiad â chyflenwyr ac archwiliadau
- Rhoi offer asesu risg gwell ar waith
- Gwella prosesau casglu data ac adrodd
- Cryfhau rheolaethau contractiol

Mae'r datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Cyfarwyddwr WJEC CBAC Limited ac fe'i llofnodir gan:

Ian Morgan
Prif Weithredwr